Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 25.11.2022

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYFLE: Galwad am artist/darlunydd – Canfas

Nod Canfas, prosiect celfyddydol a weinyddir gan Galeri Caernarfon, yw gwella edrychiad a chodi ansawdd amgylcheddol Caernarfon a chyflwyno golau, gwyrddni a natur i ofodau llwm. Mae comisiwn gwerth £2,000 ar gael i artist/darlunydd i greu delwedd fydd yn cael ei arddangos ar raddfa fawr mewn man cyhoeddus yn Gaernarfon – y dyddiad cau yw 30 Tachwedd 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://galericaernarfon.com/canfas

# NEWYDDION: Parc carafanau Talybont yn ennill gwobr

Llongyfarchiadau i Barc Carafanau Islawrffordd, Talybont, sydd wedi cael ei enwi fel yr un orau yng Nghymru yng Ngwobrau Carafanau a Gwersylla AA 2022-23. Mewn dathliad dwbl, daeth Nineteen.57 Bar a Bwyty'r parc yn ail yng nghategori Gorau Gogledd Cymru yng Ngwobrau Bwyty Cymraeg y Flwyddyn 2022. I ddarllen y stori, ewch i:

http://bit.ly/3OzAujd

# CYFLE: Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) Canolfan Ragoriaeth – cystadleuaeth agored

Mae Canolfan Ragoriaeth SBRI yn cael ei chynnal gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw datrys heriau/anghenion heb eu diwallu ym maes iechyd trwy gynnal cystadlaethau gan wahodd diwydiant i weithio gyda nhw. Yn ddiweddar, mae Canolfan Ragoriaeth SBRI wedi lansio tair sialens newydd – y dyddiad cau yw 14 Rhagfyr 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://sbriwales.co.uk/cy/cystadlaethaur-diwydiant/

Bydd digwyddiad ar-lein i helpu cwblhau ceisiadau yn cael ei gynnal ar 30 Tachwedd 2022 (1:00pm-3:00pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3EYdA1v

# DIGWYDDIAD: Busnes Cymdeithasol Cymru – Cyllid ar gyfer Effaith 30 Tachwedd 2022

Bydd sesiwn ar-lein, i helpu busnesau cymdeithasol ddeall sut i ddangos eu heffaith gymdeithasol er mwyn trosoli cyllid, yn cael

ei gynnal ar 30 Tachwedd 2022 (10:00am-12:30pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3gvzrnB

## CYNGOR: Tŷ'r Cwmnïau – Ffeilio cyfrifon yn gynnar ac ar-lein i osgoi cosb

Cynghorir busnesau sydd am ffeilio cyfrifon gyda Thŷ'r Cwmnïau erbyn diwedd mis Rhagfyr i ddefnyddio eu gwasanaethau ar-lein lle bo hynny'n bosibl a chaniatáu digon o amser cyn y dyddiad cau. Ewch i:

http://bit.ly/3U5XTJU

## BREXIT: Newyddion

- Mae UK Export Finance wedi lansio cynnyrch newydd i helpu busnesau bach a chanolig i gael eu talu'n gyflymach ac yn haws ar gyfer eu hallforion, ewch i: http://bit.ly/3tUnNpu

- Mae rhestrau gwirio ar deithio Ewrop ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y sectorau celfyddydol, diwylliannol, creadigol, a threftadaeth ar gael ar: http://bit.ly/3yNVuLf

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru